

## CAM-DRIN ARIANNOL

Cam-drin ariannol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio niweidio rhywun drwy gymryd neu eu hamddifadu o'u harian, eitemau neu eu heiddo.

Nid yw cam-drin ariannol yn dderbyniol, hyd yn oed os yw'n ymddangos yn ddibwys.

### **Mae cam-drin ariannol yn drosedd.**

Mae oedolion yn ogystal â phlant mewn perygl o gamdriniaeth ariannol.

Efallai nad yw oedolyn neu blentyn yn gallu amddiffyn ei hun rhag niwed neu ecploetiaeth oherwydd anabledd dysgu neu gorfforol, nam ar y synhwyrau, eiddilwch neu broblem iechyd meddwl.

Gall cam-drin ariannol ddigwydd ar unrhyw adeg yn unrhyw le, a gall ddigwydd i bobl o bob cefndir. Gall ddigwydd yng nghartref y person, mewn cartref gofal, canolfan ddydd, ysbyty neu mewn man cyhoeddus.



Camdriniaeth ariannol yw defnyddio eiddo, asedau, incwm, cronfeydd neu adnoddau person heb eu cydsyniad deallus neu eu hawdurdod.

Mae'n cynnwys dwyn, twyllo, ecploetio, rhoi pwysau ar berson o ran ewyllys, etifeddiaeth neu drafodion ariannol, camddefnyddio eiddo neu fudd-daliadau, camddefnyddio pŵer

atwrnai parhaus neu bŵer atwrnai parhaol, neu berson penodedig neu ddirprwyaeth.



Achosion anesboniadwy o godi arian o'r banc, gweithgarwch anarferol mewn cyfrifon banc, biliau heb eu talu, prinder anesboniadwy o arian, y person sy'n gyfrifol am yr arian yn gyndyn o ddarparu bwyd a dillad ac ati, diddordeb anarferol gan berthynas, cyfaill, gofalwr neu werthwr ym materion ariannol yr oedolyn/plentyn.

Cadwch eich llygaid ar agor am:

- Anallu anesboniadwy i dalu am nwyddau neu filiau.
- Eitemau personol yn mynd ar goll yng nghartref y person.
- Amodau byw isel o gymharu â'r arian y mae'r person yn ei dderbyn.

Trafodwch eich pryderon gyda'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol – gwelwch wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer y manylion cyswllt.

**Os yw plentyn neu oedolyn rydych chi'n ei adnabod mewn perygl dybryd ffoniwch 999 neu ffoniwch 101 os ydych chi'n credu bod trosedd wedi ei chyflawni.**

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru](#)